Rhwydwaith CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES Network

# Lleisiau o'r Rheng Flaen: Safbwyntiau Diogelwch Cymunedol (Cymru)

**Paratowyd gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru Chwefror 2026**

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ..... **3**
Cyflwyniad ..... 3
Canfyddiadau allweddol ..... 3
Yr heriau pwysicaf o ran diogelwch cymunedol ..... 4
Cymunedau a grwpiau sy'n cael eu heffeithio fwyaf ..... 4
Gweithio mewn partneriaeth: cryfderau a rhwystrau ..... 5
Yr amgylchedd ariannol a chynaliadwyedd ..... 5
Llywodraethu, llais a gwneud penderfyniadau ..... 6
Blaenoriaethau ac argymhellion dan arweiniad ymarferwyr ..... 6
Casgliad ..... 6
**Methodoleg** ..... **8**
**Canfyddiadau** ..... **9**
Materion diogelwch cymunedol pwysig ..... 9
Gweithio mewn partneriaeth: effeithiolrwydd a rhwystrau ..... 10
Tirwedd Gyllido ..... 13
Llywodraethu: pwerau gwneud penderfyniadau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ..... 17
Argymhellion dan arweiniad ymarferwyr ..... 18
Crynodeb ..... 19
Yr hyn y gallwn ei wneud yn wahanol ..... 21
**Rhestr lawn o argymhellion** ..... **23**
**Atodiad A – Methodoleg lawn** ..... **25**

# Crynodeb Gweithredol

Ym mis Tachwedd 2025, comisiynodd Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru arolwg i ymarferwyr, “Lleisiau o’r Rheng Flaen: Safbwyntiau Diogelwch Cymunedol”. Mae’r adroddiad hwn yn dangos yr heriau a’r gwirioneddau ymarferol sy’n wynebu ymarferwyr diogelwch cymunedol ym mhob cwr o Gymru ar hyn o bryd, sy’n llywio penderfyniadau ariannol a pholisïau ar gyfer y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel a phenderfyniadau gweithredol yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

## Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn y cyflwyno darganfyddiadau Lleisiau o’r Rheng Flaen: Safbwyntiau Diogelwch Cymunedol, arolwg i ymarferwyr a gynhaliwyd gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ar ran Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Mae’r arolwg yn crynhoi safbwyntiau 27 o weithwyr proffesiynol diogelwch cymunedol mewn awdurdodau lleol, yr Heddlu, darparwyr tai a sefydliadau’r trydydd sector ym mhob cwr o Gymru.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw dangos yr heriau sy’n wynebu ymarferwyr diogelwch cymunedol yn y byd go iawn, tynnu sylw at yr hyn sy’n gweithio’n dda a nodi’r rhwystrau systemig sy’n cyfyngu ar atal effeithiol ac effaith hirdymor. Mae’r adroddiad hwn yn egluro dyfnder llais yr ymarferydd ac yn darparu dadansoddiad i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

## Canfyddiadau allweddol

- Mae trais difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc a chamddefnyddio sylweddau yn cael eu henwi fel y materion diogelwch cymunedol pwysicaf yng Nghymru.
- Plant a phobl ifanc a phobl ddiamddiffyn ag anghenion cymhleth sy’n cael eu heffeithio fwyaf gan y materion hyn. Mae’r effeithiau’n cael eu teimlo fwyaf gan y rhai sydd mewn trefi a chanol dinasoedd.
- Ar y cyfan, ystyrir bod gwaith partneriaeth yn werthfawr ond yn gyfyngedig, gyda rhwystrau cyson o ran rhannu data, capasiti, prosesau anghyson a throsiant staff.
- Y farn gyffredinol am yr amgylchedd ariannu yw ei fod yn ddarniog, yn fyrdymor ac anghynaladwy, sy’n tanseilio sefydlogrwydd y gweithlu, ymyrraeth gynnar a chynllunio hirdymor.

- Mae ymarferwyr yn galw am gyllid cynaliadwy, am sawl blwyddyn, mwy o ymreolaeth i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a mwy o bwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar.
- Mae dymuniad clir am i lais yr ymarferydd fod yn fwy canolog yn y broses o lunio penderfyniadau ariannol a pholisi.

## Yr heriau pwysicaf o ran diogelwch cymunedol

Yn yr holl ymatebion, mae ymarferwyr yn disgrifio tirwedd risg sy'n gwaethygu ac yn mynd yn fwy cymhleth. Mae trais difrifol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, yn bryder mawr, a thynnwyd sylw at y ffaith bod pobl ifanc ieuengach yn cymryd rhan mewn trais difrifol, mae eu hymddygiad yn mynd yn fwy difrifol ac mae cysylltiadau â cham-fanteisio, camddefnyddio sylweddau a niwed ar-lein.

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc yn parhau'n bwysau sylweddol, yn enwedig yng nghanol trefi a mannau cyhoeddus. Soniodd yr ymarferwyr bod yr ofn yn cynyddu ymhlith preswylwyr, bod mwy o alw am wasanaethau rheng flaen a llai o opsiynau i fynd â bryd pobl ifanc pan mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn cael ei lleihau neu'n fyrdymor.

Mae camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, cysgu ar y stryd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig yn cael eu disgrifio'n aml fel problemau sy'n ymwneud â'i gilydd, yn enwedig pan fo unigolion â sawl agwedd ddiamddiffyn yn crynhoi mewn lleoliadau penodol. Mae ymarferwyr yn pwysleisio nad yw gorfodi ar ei ben ei hun yn ddigon, a heb gefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a thai, mae risgiau diogelwch cymunedol yn parhau.

## Cymunedau a grwpiau sy'n cael eu heffeithio fwyaf

Er bod y rhai a ymatebodd yn nodi bod problemau diogelwch cymunedol yn effeithio ar bob cymuned, mae consensws cryf bod rhai grwpiau'n profi niwed anghymesur:

- Plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n dod i gysylltiad â thrais, cam-fanteisio, eu gwahardd o addysg a niwed ar-lein.
- Oedolion diamddiffyn, yn cynnwys y rhai sy'n profi digartrefedd, iechyd meddwl gwael, camddefnyddio sylweddau neu arwahanrwydd cymdeithasol.
- Cymunedau yng nghanol trefi a dinasoedd, ble mae ymddygiad gwrthgymdeithasol, defnyddio cyffuriau a thrais amlwg yn effeithio ar breswylwyr, busnesau a'r canfyddiad o ddiogelwch.

- Merched a genethod, yn enwedig mewn perthynas â thrais, aflonyddu a chasineb at ferched yn gyhoeddus ac ar-lein.
- Cymunedau gwledig, sy'n wynebu heriau ychwanegol yn ymwneud ag unigedd, llai o fynediad at wasanaethau a chefnogaeth sydd ddim mor amlwg.

Mae'r effeithiau hyn yn aml yn gronnus, gan atgyfnerthu cylchoedd niwed a rhoi pwysau parhaus ar wasanaethau rheng flaen.

## Gweithio mewn partneriaeth: cryfderau a rhwystrau

Dywed mwyafrif y rhai a ymatebodd bod y trefniadau partneriaeth presennol yn "weddol effeithiol", gan ddangos ymrwymiad cryf i waith amlasiantaeth a datrys problemau ar y cyd. Enwir llawer o enghreifftiau o arfer da, yn cynnwys grwpiau gorchwyl gweithredol, cydleoli, dulliau'n seiliedig ar gymdogaethau a phartneriaethau arbenigol.

Fodd bynnag, mae ymarferwyr yn nodi rhwystrau strwythurol sy'n cyfyngu ar effeithlonrwydd yn gyson, yn cynnwys:

- Cyfyngiadau ac ansicrwydd o ran rhannu data, yn aml yn gysylltiedig â dehongli'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- Blaenoriaethau a chylchoedd ariannu sefydliadol sy'n cystadlu â'i gilydd.
- Cyfyngiadau o ran gallu ac amser i gymryd rhan lawn mewn partneriaethau.
- Trosiant uchel o ran staff, sy'n arwain at golli perthnasoedd a gwybodaeth sefydliadol.
- Dulliau a disgwyliadau anghyson ar draws rhanbarthau.

Mae awydd cryf am fodelau partneriaeth mwy integredig, sy'n canolbwyntio ar gymdogaethau, llywodraethu cliriach a rhannu safonau i leihau dyblygu a gweithio ar wahân.

## Yr amgylchedd ariannol a chynaliadwyedd

Mae llawer o'r ymarferwyr yn dweud bod y dirwedd ariannol yn ddarniog, anrhagweladwy ac anghynaladwy. Yn aml mae'r ffrydiau ariannu'n rhai byrdymor ac untro, sy'n:

- Rhwystro cynllunio a chomisiynu hirdymor.
- Tanseilio ysbryd staff a'u hawydd i aros ac mae llawer o swyddi'n dibynnu ar gontractau cyfnod penodol.
- Oedi neu gyfyngu ar waith atal ac ymyrryd yn gynnar.
- Cynyddu'r baich gweinyddol, a dwyn amser o ddarpariaeth rheng flaen.

Mae gofynion bidio, monitro ac adrodd cymhleth yn bryder parhaus, yn enwedig pan mae'r cyllid yn weddol isel neu'n gyfyngedig o ran amser. Mae nifer o'r rhai a ymatebodd yn dweud eu bod wedi gorfod cwtogi, oedi neu atal prosiectau oherwydd galwadau gweinyddol neu gadarnhad hwyr bod yr arian ar gael.

Dadl gyson yr ymarferwyr yw nad yw modelau ariannu presennol yn cyd-fynd â chymhlethdod gwaith diogelwch cymunedol, sy'n gofyn am berthnasoedd parhaus, ymddiriedaeth a buddsoddiad hirdymor.

## Llywodraethu, llais a gwneud penderfyniadau

Mae llawer o'r rhai a ymatebodd yn teimlo nad oes gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddigon o rym i wneud penderfyniadau, yn enwedig o ran dyrannu cyllid a chomisiynu. Er mai'r Partneriaethau sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion lleol, mae penderfyniadau ariannol yn aml yn cael eu gwneud yn rhanbarthol neu'n genedlaethol, sy'n cyfyngu ar hyblygrwydd a'r gallu i ymateb yn lleol.

Mae canfyddiad cryf hefyd nad yw llais ymarferwyr yn cael ei glywed yn gyson mewn penderfyniadau'n ymwneud ag arian a pholisi.  Mae'r rhai a ymatebodd yn galw am broses gwneud penderfyniadau mwy tryloyw, ymgysylltu cynharach a mecanweithiau sy'n gwerthfawrogi gwybodaeth o'r rheng flaen ynghyd â blaenoriaethau strategol.

## Blaenoriaethau ac argymhellion dan arweiniad ymarferwyr

Mae ymarferwyr yn nodi'r blaenoriaethau a ganlyn ar gyfer y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel dros y 2-3 blynedd nesaf:

1. Cryfhau ymyrraeth gynnar ac atal yn enwedig i blant a phobl ifanc.
2. Gwella cydweithio a rhannu data rhwng asiantaethau, gyda llywodraethu cliriach a safonau a rennir.
3. Sicrhau cyllid cynaliadwy, hirdymor ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol a staffio.
4. Gwella'r gefnogaeth i grwpiau diamddiffyn ac anghenion cymhleth, yn cynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
5. Gwella ymreolaeth a dylanwad lleol drwy rymuso Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a llais yr ymarferydd.

## Casgliad

Mae'r arolwg yn rhoi darlun clir o weithlu ymroddedig, medrus, sy'n canolbwyntio ar atebion, yn gweithio mewn amgylchedd sy'n mynd yn fwy a mwy anodd. Mae gan

ymarferwyr ddigonedd o syniadau a brwdfrydedd; ond maent yn cael eu rhwystro gan rwystrau strwythurol, yn enwedig o ran cyllid, gallu a llywodraethu.

Drwy ymdrin â'r problemau systemig hyn, yn benodol drwy fodelau ariannu cynaliadwy, partneriaethau cryfion ac ymgysylltu gwirioneddol â llais yr ymarferydd, mae gan y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel gyfle arwyddocaol i ddatgloi potensial llawn gwaith diogelwch cymunedol ym mhob cwr o Gymru a darparu gwelliannau parhaol i gymunedau.

# Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lywio gan ymatebion i arolwg ar-lein Lleisiau o'r Rheng Flaen: Safbwyntiau Diogelwch Cymunedol, a ddosbarthwyd gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ym mis Tachwedd 2025. Ymatebodd 27 o ymarferwyr i gyd, yn cynrychioli ystod eang o sefydliadau statudol ac anstatudol sy'n rhan o waith darparu diogelwch cymunedol ym mhob cwr o Gymru, yn cynnwys awdurdodau lleol, yr Heddlu, darparwyr tai, sefydliadau trydydd sector, gwasanaethau wedi'u seilio ar ffydd a rolau polisi Llywodraeth Cymru. Roedd y rhai a ymatebodd yn gweithio mewn cyd-destunau trefol, canol tref a gwledig mewn swyddi gweithredol, strategol a rhai oedd yn canolbwyntio ar bolisi. Roedd yr arolwg yn cyfuno cwestiynau amlddewis â chwestiynau testun rhydd, oedd yn golygu bod ymarferwyr yn gallu mesur eu profiadau a disgrifio'r heriau yn eu geiriau eu hunain.

Cafodd yr holl ymatebion eu hadolygu'n llawn a'u cynnwys yn y dadansoddiad. Cafodd cwestiynau caeedig eu crynhoi drwy gyfrifon amlder syml a defnyddiwyd siartiau i dynnu sylw at batrymau a thueddiadau. Cafodd ymatebion testun rhydd eu dadansoddi gan ddefnyddio dull thematig ysgafn i nodi materion a themâu cylchol. Os oedd ymatebion yn cyfeirio at fwy nag un mater, cawsant eu hadlewyrchu ar draws themâu perthnasol i grynhoi natur cysylltiedig heriau diogelwch cymunedol. Ni ddefnyddiwyd unrhyw bwysoli na modelu ystadegol. Bwriad y dadansoddiad yw disgrifio profiadau a dysg a rennir, yn hytrach na darparu darganfyddiadau cynrychioladol ystadegol. Tra bod y canlyniadau'n adlewyrchu safbwyntiau'r rhai a ymatebodd, mae cysondeb cryf y themâu ar draws sectorau ac ardaloedd yn darparu gwybodaeth ansoddol gadarn am y pwysau a'r gwirionedd sy'n wynebu ymarferwyr diogelwch cymunedol yng Nghymru.

Mae disgrifiad llawn o'r fethodoleg yn Atodiad A.


# Canfyddiadau

Mae'r adran a ganlyn yn darparu'r dystiolaeth fanwl sy'n sail i'r Canfyddiadau Allweddol a'r Crynodeb uchod. Mae'n crynhoi'r canfyddiadau allweddol o'r arolwg i ymarferwyr, dan ddefnyddio data meintiol ac adborth ansoddol. Trefnir y darganfyddiadau fesul thema i adlewyrchu'r heriau cysylltiedig sy'n wynebu gwasanaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru.

## Materion diogelwch cymunedol pwysig

Cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebwyr yn aml at drais difrifol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc ochr yn ochr â niwed yn ymwneud â chyffuriau a digartrefedd / anghenion cymhleth.

*Siart 1: Y materion pwysicaf a nodwyd gan ymarferwyr*




Er bod cydnabyddiaeth bod y materion diogelwch cymunedol hyn yn effeithio ar y gymuned gyfan, nododd ymarferwyr y grwpiau a ganlyn fel y rhai a effeithir arnynt fwyaf:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl ddiamddiffyn / pobl ag anghenion cymhleth.
- Preswylwyr a busnesau canol tref
- Merched a genethod

- Pobl hŷn

Effeithir yn anghymesur ar blant a phobl ifanc gan y cynnydd mewn trais difrifol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc, yn cynnwys trais mewn ysgolion ac o'u cwmpas, mwy o waharddiadau, ofn a dod i gysylltiad â chamfanteisio, cyffuriau a chynnwys niweidiol ar-lein.

*"Mae unigolion iau yn cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol / troseddol, sef plant rhwng 8-10 oed, ac yn ail, difrifoldeb / lefel yr ymddygiad sy'n digwydd." - Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol*

Mae oedolion diamddiffyn a phobl ag anghenion cymhleth yn profi mwy o niwed oherwydd y cysylltiad rhwng camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael, digartrefedd a chamfanteisio, yn enwedig mewn ardaloedd ble mae defnydd amlwg o gyffuriau a gweithgarwch troseddu cyfundrefnol.

Preswylwyr a busnesau canol tref sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc sy'n crynhoi yno, trais yn ystod y nos, gweithgareddau gan bobl feddw a rhai sydd wedi cymryd cyffuriau, gan beri iddynt deimlo'n fwy anniogel, amharu ar fywyd bob dydd a gweithgarwch economaidd a phwysau ar staff.

Mae merched a genethod yn cael eu heffeithio gan aflonyddu, sylw digroeso a'r ofn o drais mewn mannau cyhoeddus, yn enwedig yn ystod y nos ac mewn canol trefi, ochr yn ochr â dod i gysylltiad â deunydd misogynistig a niweidiol ar-lein.

Mae teimlo'n anniogel mewn mannau cyhoeddus yn effeithio'n benodol ar bobl hŷn, yn cynnwys cael eu heffeithio gan ddefnydd anniogel o gerbydau ac e-feiciau mewn ardaloedd i gerddwyr, yfed ar y stryd a defnydd amlwg o gyffuriau, sy'n cyfyngu ar hyder a symudedd.

## Gweithio mewn partneriaeth: effeithiolrwydd a rhwystrau


Ar y cyfan, dywedodd y rhai a ymatebodd bod gwaith partneriaeth yn ymroddedig ac yn cael ei lywio gan berthnasoedd, a chafwyd enghreifftiau cryf o gydweithio effeithiol ar

lefel weithredol. Pan mae partneriaethau'n gweithio orau, mae cysylltiad â dealltwriaeth ar y cyd o broblemau lleol, cydleoli, perthnasoedd anffurfiol a chysondeb staff.

Fodd bynnag, cyfyngir drosodd a throsodd ar effeithiolrwydd gan rwystrau strwythurol a systemig, yn enwedig cyllid byrdymor a darniog, blaenoriaethau sefydliadol sy'n cystadlu â'i gilydd, trosiant staff a threfniadau rhannu data anghyson. Mae'r materion hyn yn cyfyngu ar aliniad strategol, parhad a'r gallu i gynllunio ymatebion ataliol hirdymor, er gwaetha'r ewyllys da a'r parodrwydd ymhlith partneriaid.

Ar y cyfan, mae partneriaethau'n gweithio ond mae'n amlwg bod lle i'w cryfhau. Ymhlith y 27 a ymatebodd, dywedodd 70% "gweddol effeithiol", 22% "effeithiol iawn" a 7% "aneffeithiol".


*Siart 2: Safbwyntiau ymarferwyr ar effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth presennol*




Nododd y rhai a ymatebodd nifer o heriau. Fodd bynnag, y prif rwystrau oedd galwadau oedd yn gwrthdaro a chyfyngiadau o ran adnoddau, cylchoedd ariannu gwahanol, diffyg blaenoriaethau a rennir, capasiti timau, gwahaniaethau diwylliannol rhwng sefydliadau a rhannu data, ac roedd trosiant staff a diffyg hyfforddiant ar y cyd hefyd yn amlwg yn yr adborth.

*"Diffyg cynnyrch/dogfennau dadansoddi (dioddefwyr / troseddwyr / lleoliadau ac ati) i'n helpu i ddeall y galw mwyaf neu'r troseddau effaith uchel fel bod ein hadnoddau'n cael eu comisiynu'n fwy deallus." – Arweinydd Diogelwch Cymunedol*

*Siart 3: Rhwystrau i weithio mewn partneriaeth a enwyd amlaf gan ymarferwyr*




Er bod y rhai a ymatebodd wedi nodi ystod o rwystrau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, tynnwyd sylw hefyd at enghreifftiau o ragoriaeth ac arfer gorau ble mae cydweithio'n darparu manteision clir. Dengys yr enghreifftiau hyn y gall gweithio mewn partneriaeth fod yn effeithiol iawn pan fydd pwrpas ar y cyd, strwythurau cyson a pherthnasoedd cryfion. Ymhlith enghreifftiau allweddol mae modelau partneriaeth yn canolbwyntio ar dasg, megis: Tasgluoedd darparu'r Ddyletswydd Trais Difrifol ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sy'n hyrwyddo cysondeb a rhannu perchnogaeth ar draws ardaloedd; cydleoli a gweithio mewn ardaloedd, sy'n cryfhau ymddiriedaeth, rhannu gwybodaeth ac ymatebion cydlynol; a mentrau difyrru ac estyn allan amlasiantaethol i bobl ifanc, sy'n dod â phartneriaid statudol a thrydydd sector ynghyd i atal problemau rhag gwaethygu ac ymdrin ag achosion sylfaenol niwed.

Gan adeiladu ar yr enghreifftiau hyn o ymarfer effeithiol, tynnodd y cyfranogwyr sylw at gyfleoedd i gryfhau ymyrraeth gynnar ac atal. Pwysleisiodd yr ymatebion bod angen symud oddi wrth ymatebion byrdymor, ymatebol at ddulliau mwy cydlynus ac ataliol, yn seiliedig ar gyllid cynaliadwy a digon o allu i gyflawni. Roedd y blaenoriaethau allweddol yn cynnwys ymgysylltu'n gynharach ac yn fwy cyson â phlant a phobl ifanc, gwell mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, gallu cryfach i ddadansoddi a chasglu gwybodaeth a fframweithiau partneriaeth mwy clir ac atebol. Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at bwysigrwydd dealltwriaeth a rennir am rolau,


rhannu data'n well, hyfforddiant ar y cyd a modelau wedi'u seilio ar le neu gymdogaethau sy'n dod â gwasanaethau ynghyd o amgylch cymunedau, er mwyn gallu ymdrin â phroblemau cyn iddynt ddwysau.

## Tirwedd Gyllido

Roedd y cyfranogwyr yn disgrifio'r amgylchedd cyllido ar gyfer diogelwch cymunedol yn gyson fel un byrdymor, ansicr a chaeth. Y farn gyffredinol oedd bod cyllid yn ddarniog ac yn dibynnu'n drwm ar grantiau blynyddol neu untro, gan wneud cynllunio hirdymor yn anodd a thanseilio cynaliadwyedd. Dywedwyd bod cadarnhad hwyr a newidiadau mynych i feini prawf cyllid yn cyfrannu at drosiant staff, colli arbenigedd a dull mwy ymatebol o ddarparu. Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at y baich gweinyddol sylweddol oedd yn gysylltiedig â bidio, adrodd a chydymffurfio, sy'n lleihau'r gallu i ddarparu gwaith rheng flaen ac atal, ac mewn rhai achosion, sy'n dylanwadu ar benderfyniadau i gwtogi, oedi neu atal mentrau fyddai fel arall yn effeithiol.

Roedd llawer iawn yn dweud bod cyllid yn anrhagweladwy, anghynaladwy neu'n ddarniog, gyda goblygiadau sylweddol o ran cynllunio, comisiynu a chadw staff.


*Siart 4: Safbwyntiau ymarferwyr am yr amgylchedd cyllido presennol*




Dywedodd y cyfranogwyr fod cyllid darniog, a chyllid sy'n cael ei gadarnhau'n hwyr mor aml, ochr yn ochr â gofynion bidio ac adrodd cymhleth, yn cyfyngu ar gynllunio


hirdymor, cyfrannu at drosiant staff a lleihau'r gallu i ganolbwyntio ar atal a darpariaeth rheng flaen.

*Siart 5: Pa mor aml mae ffrydiau ariannu'n rhai tymor byr/untro?*





Sgoriodd y cyfranogwyr effaith cyllid tymor byr ar gynllunio hirdymor, a dangosodd yr ymatebion ei fod yn cyfyngu'n sylweddol. Nododd mwyafrif yr ymatebion mai cyllid tymor byr oedd y broblem fwyaf perthnasol o ran rhwystro cynllunio hirdymor, ond soniwyd hefyd am lai o allu i gynllunio'n strategol, gan gyfyngu ar uchelgais ac ansicrwydd parhaus. Er bod rhai wedi nodi y gall cyllid tymor byr ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd, roedd hyn yn cael ei orbwyso'n gyson gan ei effaith negyddol ar gynaliadwyedd, parhad ac atal effeithiol.

*Siart 6: Effaith ffrydiau cyllido tymor byr neu untro ar gynllunio hirdymor*




Mae prosesau gweinyddol yn cael effaith sylweddol ar ddarparu gwaith diogelwch cymunedol. Dywedodd cyfran helaeth o'r rhai a ymatebodd fod gofynion bidio, adrodd a chydymffurfio'n lleihau gallu ac yn dwyn amser oddi wrth ddarparu gweithgareddau rheng flaen ac atal.


*Siart 7: Effaith prosesau gweinyddol ar ddarpariaeth weithredol*




Cadarnhaodd 37% o'r rhai a ymatebodd bod gofynion gweinyddol wedi effeithio'n uniongyrchol ar benderfyniadau darparu. Dywedodd llawer o'r cyfranogwyr bod

biwrocratiaeth wedi dylanwadu ar benderfyniadau i gwtogi, oedi neu atal prosiectau, sy'n tynnu sylw at effaith ymarferol y baich gweinyddol ar gynnal mentrau diogelwch cymunedol effeithiol.

*Siart 8: Oedi cyn rhoi mentrau ar waith a achoswyd gan ofynion gweinyddol*




Wrth edrych ar yr heriau biwrocrataidd a wynebir wrth ddefnyddio neu reoli cyllid, yr heriau y soniwyd amdanynt amlaf gan gyfranogwyr oedd prosesau ymgeisio cymhleth sy'n cymryd amser, gofynion adrodd a monitro trwm, amserlenni ariannu byr a chapasiti cyfyngedig o ran staff. Ystyriwyd bod y pwysau hyn yn cyfrannu at flinder ymysg staff, lleihau hyblygrwydd a dwyn amser darparu a gweithio mewn partneriaeth.

Rhaglenni atal ac ymyrraeth gynnar sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan newidiadau neu anghysondeb mewn cyllid, ac yna mentrau strategol hir dymor ac amlasiantaeth neu brosiectau'n seiliedig ar bartneriaeth. Dengys hyn bod ansefydlogrwydd ariannol yn effeithio'n anghymesur ar ddulliau ataliol, cydweithredol a mwy hirdymor at ddiogelwch cymunedol.


*Tabl 1: Mathau o brosiectau neu ymyraethau sy'n fwy sensitif i newidiadau neu anghysondebau gyda chyllid*

| A oes mathau penodol o brosiectau neu ymyraethau sy'n fwy sensitif i newidiadau neu anghysondebau gyda chyllid? | |
|---|---|
| *Mathau o brosiectau neu ymyraethau* | *Dewiswyd* |
| Rhaglenni atal ac ymyrraeth gynnar | 22 (20%) |
| Mentrau strategol hirdymor | 19 (18%) |
| Prosiectau amlasiantaeth neu bartneriaeth | 16 (15%) |
| Prosiectau peilot neu'n seiliedig ar arloesedd | 16 (15%) |
| Mentrau dan arweiniad y gymuned neu lawr gwlad | 13 (12%) |
| Prosiectau sy'n ddibynnol ar staff neu hyfforddiant arbenigol | 12 (11%) |
| Gwasanaethau â rhwymedigaethau statudol | 10 (9%) |
| Dim / amherthnasol | 0 |
| Arall | 0 |

## Llywodraethu: pwerau gwneud penderfyniadau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Mae'r canfyddiadau am bwerau gwneud penderfyniadau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn amrywio ond mae llawer o'r rhai a ymatebodd yn sôn am ddiffyg dylanwad dros benderfyniadau'n ymwneud â chyllid a pholisi, yn enwedig y tu hwnt i'r lefel leol. Y farn gyffredinol yw mai ychydig o bwerau sydd gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol dros adnoddau, ac yn aml mae cyllid yn cael ei reoli'n allanol ac nid yw'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau lleol, sy'n golygu llai o hyblygrwydd a darpariaeth effeithiol.

*Siart 9: Pwerau gwneud penderfyniadau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol*




Mae cyfranogiad cymunedol yn y gwaith o lunio blaenoriaethau diogelwch cymunedol yn amrywio ac yn cael ei gyfyngu'n aml gan gyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau. Er bod rhai partneriaethau'n sôn am ymgysylltiad ystyrlon drwy ymgynghoriadau, arolygon a fforymau lleol, dywedodd eraill nad oedd llawer o ymgysylltu, neu ei fod yn anghyson. Roedd y cyfranogwyr yn gofyn am gefnogaeth gryfach i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, dyraniadau uniongyrchol am sawl blwyddyn, strwythurau llywodraethu a llinellau uwchgyfeirio cliriach, trefniadau rhannu data gwell a mwy o gydnabyddiaeth i rôl y Partneriaethau i ymdrin â materion diogelwch cymunedol lleol.

Roedd llawer yn cytuno'n gryf â blaenoriaethau diogelwch cymunedol yn y dyfodol. Ymyrraeth gynnar ac atal, cydweithio a threfniadau rhannu data gwell rhwng asiantaethau, yn ogystal â'r angen am gyllid cynaliadwy, hirdymor, ochr yn ochr â galwadau am gydnabyddiaeth a chefnogaeth well i waith diogelwch cymunedol rheng flaen ac yn y gymdogaeth.

## Argymhellion dan arweiniad ymarferwyr

Gan dynnu ar dystiolaeth yn dangos profiad bywyd ymarferwyr diogelwch cymunedol ym mhob cwr o Gymru, mae'r argymhellion a ganlyn yn nodi camau ymarferol i gryfhau darpariaeth diogelwch cymunedol a gwella canlyniadau hirdymor:

- Symud at gyllid cyfun, am sawl blwyddyn ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gyda threfniadau adrodd cymesur sy'n cyd-fynd â chanlyniadau y cytunwyd arnynt, er mwyn sefydlogi'r gweithlu, cynllunio hirdymor ac atal effeithiol.
- Sefydlu neu gryfhau canolfannau partneriaeth ar y cyd mewn cymdogaethau i wella cyd berchnogaeth o faterion, galluogi rhannu data'n brydlon a chefnogi datrys problemau ar y cyd yn lleol.
- Buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar a chefnogaeth wedi'i llywio gan drawma, yn enwedig o ran trais ymhlith pobl ifanc, cam-fanteisio ac anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n digwydd gyda'i gilydd, i ymdrin â'r tarddiad yn hytrach na dibynnu ar ymatebion adweithiol.
- Datblygu protocolau rhannu data safonol a safonau partneriaeth craidd i Gymru gyfan, yn cynnwys eglurder am rolau, llwybrau uwchgyfeirio ac atebolrwydd, i leihau anghysondeb a dileu rhwystrau i waith amlasiantaeth effeithiol.
- Adeiladu gallu i ddadansoddi a chynnyrch gwybodaeth ar y cyd i lywio penderfyniadau comisiynu'n well, targedu datrys problemau a sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y mannau ble gallant gael yr effaith fwyaf.

Gan adlewyrchu canfyddiadau'r arolwg, mae ymarferwyr yn nodi'r blaenoriaethau a ganlyn ar gyfer y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel dros y 2-3 blynedd nesaf:

1. Cryfhau ymyrraeth gynnar ac atal yn enwedig i blant a phobl ifanc.
2. Gwella cydweithio a rhannu data rhwng asiantaethau, gyda llywodraethu cliriach a safonau a rennir.
3. Sicrhau cyllid cynaliadwy, hirdymor ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol a staffio.
4. Gwella'r gefnogaeth i grwpiau diamddiffyn ac anghenion cymhleth, yn cynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
5. Gwella ymreolaeth a dylanwad lleol drwy rymuso Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a llais yr ymarferydd.

## Crynodeb

Mae'r arolwg hwn yn darparu safbwynt cadarn o'r hyn mae ymarferwyr ym mhob cwr o Gymru yn ei wynebu o ddydd i ddydd ac yn dangos beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae'r hyn a ddysgwyd yn glir: mae risgiau'n cynyddu ac yn gymhleth, mae partneriaethau'n bwysig ond yn gyfyngedig, ac mae natur fyrdymor cyllid

yn tanseilio atal a sefydlogrwydd y gweithlu.  Mae'r wybodaeth isod yn cyfuno'r dystiolaeth a llais yr ymarferwyr i arwain penderfyniadau yn y dyfodol,

Dywed ymarferwyr bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ieuengach ac mae risgiau wedi'u clystyru o amgylch defnyddio sylweddau, camfanteisio, digartrefedd ac iechyd meddwl. Mae problemau'n gysylltiedig, felly mae'n anodd i ymatebion gan un asiantaeth weithio.

*"Gwelwyd cynnydd amlwg mewn digartrefedd, cysgu ar y stryd, begera ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais cysylltiedig…. ac mae clystyru'n gwaethygu'r elfennau sy'n gwneud pobl yn ddiamddiffyn."  - Swyddog Diogelwch Cymunedol*

Mae arnom angen sicrhau bod ymyraethau'n gydlynol ac ataliol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â thrais ymhlith pobl ifanc ac anghenion sy'n cyd-ddigwydd.

Mae perthnasoedd gweithredol a grwpiau gorchwyl lleol yn gryf, ond mae effeithiolrwydd yn cael ei atal gan ansicrwydd am rannu data, bylchau mewn gallu, trosiant a  chylchoedd/protocolau nad ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae ar ymarferwyr eisiau modelau wedi'u cydleoli, ac sy'n canolbwyntio ar gymdogaethau, gyda safonau a llwybrau uwchgyfeirio clir.

*"Yn weithredol, mae gwaith partneriaeth yn rhagweithiol iawn gan fod pawb yn deall y problemau ac yn barod i gydweithio. Fodd bynnag, mae amharodrwydd i rannu gwybodaeth bersonol." - Rheolwr Partneriaeth a Diogelwch Cymunedol*

Mae arnom angen protocolau rhannu data clir a safonol a safonau partneriaeth craidd i Gymru gyfan (rolau, uwchgyfeirio, atebolrwydd) ynghyd â chanolfannau ar y cyd i ddatrys problemau gyda'n gilydd.

Mae'r rhai a ymatebodd yn dweud yn gyson bod cyllid yn anrhagweladwy/ anghynaladwy, a bod cadarnhad hwyr a llawer o waith o ran ymgeisio/monitro yn dwyn amser darparu ac yn chwalu cysondeb. Mae llawer o dimau'n dibynnu ar swyddi cyfnod penodol, sy'n peryglu colli arbenigedd a pherthnasoedd.

*"Mae cyllid yn fyrdymor, hysbysiadau munud olaf am gyllid i'w wario'n gyflym a chyllid annigonol i wneud newidiadau ystyrlon." - Rheolwr Partneriaeth a Diogelwch Cymunedol*

Awgrymir ein bod yn symud tuag at gyllid cyfun, am sawl blwyddyn ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, adrodd cymesur sy'n cyd-fynd â chanlyniadau fel y gall partneriaid gynllunio, cadw staff a buddsoddi mewn atal.

*"Ffrydiau grant am o leiaf tair blynedd. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i allu rheoli eu grantiau i'w gwario ar flaenoriaethau diogelwch cymunedol lleol." – Arweinydd Tîm Cefnogaeth Gymhleth*

Mae llawer yn teimlo nad oes gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol lawer o bwerau gwneud penderfyniadau dros adnoddau; yn aml mae cyllid yn cael ei reoli yn rhywle arall, yn cynnwys hyblygrwydd lleol. Nid yw gwybodaeth o'r rheng flaen yn cael ei glywed yn ddigon buan yn gyson mewn penderfyniadau am gyllid/polisi.

Dylid rhoi'r pŵer dros ddyraniadau uniongyrchol a llywodraethu tryloyw i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Ymgorffori llais yr ymarferydd yn y broses gwneud penderfyniadau i sicrhau bod buddsoddiad yn olrhain yr angen yn y byd go iawn.

Mae timau'n fach, mae cyfyngiad amser ar swyddi ac mae'r baich gweinyddol yn uchel - ac mae hyn oll yn tanseilio sefydlogrwydd a dysg. Er hyn, mae ymarferwyr yn parhau i ganolbwyntio ar atebion, yn gofyn am safonau clir, dadansoddi gwell a chyllid cynaliadwy i ddarparu.

*"Ansicr os oes gan y tîm waith o un flwyddyn i'r llall." - Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol*

Mae arnom angen meithrin gallu i ddadansoddi a chynnyrch gwybodaeth ar y cyd gyda chefnogaeth cyllid sefydlog fel y gall arferion aeddfedu a gwella.

## Yr hyn y gallwn ei wneud yn wahanol

- Ariannu ar gyfer sefydlogrwydd ac atal: mabwysiadu cyllid cyfun, am sawl blwyddyn ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gyda throsolwg cymesur, er mwyn gallu cadw staff a darparu gwasanaethau atal wedi'u cynllunio ymlaen llaw.
- Gweithio fel un tîm yn lleol: sefydlu canolfannau partneriaethau mewn un lle a chytuno ar safonau rhannu data a phartneriaethau Cymru gyfan i leihau amrywiaeth a rhyddhau llif gwybodaeth.
- Anelu ymdrechion at ble mae'r risgiau'n crynhoi: buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar, cefnogaeth wedi'i llywio gan drawma a dadansoddi ar y cyd i dargedu ardaloedd problemus ac anghenion cymhleth.
- Dyrchafu llais yr ymarferydd: sicrhau bod Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac arweinwyr gwasanaethau rheng flaen o gwmpas y bwrdd yn gynnar wrth drafod penderfyniadau ar bolisi a chyllid.

# Casgliad

Mae’r arolwg Lleisiau o’r Rheng Flaen yn cynnig darlun cydlynol a didwyll o arferion diogelwch cymunedol yng Nghymru. Mae ymarferwyr yn disgrifio patrwm cynyddol a mwy a mwy cymhleth o niwed, yn benodol trais difrifol yn cynnwys carfannau ieuengach, ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc, camddefnyddio sylweddau a’r cysylltiad rhwng digartrefedd ag anghenion iechyd meddwl.

Er bod gwaith amlasiantaeth yn cael ei werthfawrogi ac yn aml yn effeithiol ar lefel weithredol, cyfyngir ar ei effaith gan rwystrau strwythurol: dulliau rhannu data anghyson, safonau a disgwyliadau anwastad mewn ardaloedd, trosiant uchel a model ariannu sy’n ddarniog, anrhagweladwy ac yn drwm yn weinyddol. Mae’r pwysau hyn yn tanseilio parhad, sefydlogrwydd y gweithlu a’r gallu i gynllunio ar gyfer atal.

Yn hanfodol, mae llawer o’r rhai a ymatebodd yn teimlo nad oes gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddigon o bwerau i wneud penderfyniadau am adnoddau ac nad yw llais yr ymarferydd yn cael ei glywed yn ddigon cynnar yn gyson mewn cylchoedd ariannu a pholisi.  Dylai’r llwybr ymlaen fod yn glir o’r dystiolaeth: buddsoddiad parhaus, partneriaethau lleol wedi’u grymuso, safonau cyffredin ar gyfer cydweithio a data a gallu cryfach i ddadansoddi er mwyn targedu ymdrechion ble mae’n gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Gyda’i gilydd, byddai’r newidiadau hyn yn galluogi Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a’u partneriaid i symud yn bendant o ymatebion byrdymor, adweithiol i ddulliau hirdymor, ataliol, wedi’u llywio gan drawma sy’n gwella diogelwch a hyder mewn cymunedau yng Nghymru.

# Rhestr lawn o argymhellion

**Cyllid a chomisiynu**

- Mabwysiadu cyllid cyfun, am sawl blwyddyn ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gyda threfniadau adrodd cymesur, ysgafn yn cyd-fynd â nifer fechan o ganlyniadau y cytunwyd arnynt, gan alluogi sefydlogrwydd y gweithlu, cynllunio ymlaen llaw ac atal parhaus.
- Symleiddio gofynion bidio, monitro a chydymffurfio'r holl gyllidwyr (Llywodraeth Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Llywodraeth y DU) i leihau'r baich gweinyddol, a chadarnhad cynharach i osgoi ansicrwydd diwedd blwyddyn.
- Sicrhau bod yr holl wariant lleol yn ymwneud â diogelwch cymunedol yn dryloyw, fel y gall partneriaethau sicrhau bod buddsoddiadau'n cyd-fynd â'i gilydd, osgoi dyblygu a llenwi bylchau gwirioneddol.

**Model partneriaeth a llywodraethu**

- Sefydlu (neu gryfhau) canolfannau partneriaeth cymdogaethau i ymgorffori perchnogaeth ar y cyd, tasgau amser real a datrys problemau ar y cyd.
- Diffinio safonau partneriaeth craidd Cymru gyfan (rolau, disgwyliadau, uwchgyfeirio ac atebolrwydd) i leihau amrywiaeth a sicrhau arferion cyson ym mhob rhanbarth.
- Egluro a chryfhau pwerau gwneud penderfyniadau'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol dros adnoddau diogelwch cymunedol lleol, gyda llywodraethu clir sy'n clymu atebolrwydd a dylanwad.

**Rhannu data, gwybodaeth a dysg**

- Datblygu protocolau rhannu data safonol i Gymru gyfan gyda thempledi ac arweiniad clir sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data i gael gwared ar ansicrwydd a hwyluso gweithredu amlasiantaeth.
- Adeiladu gallu a chynnyrch dadansoddi ar y cyd (proffiliau dioddefwr/troseddwr/lleoliad, dadansoddi ardaloedd problemus, rhagweld y galw) yn sail i gomisiynu ac atal wedi'i dargedu.
- Mabwysiadu fframwaith perfformiad a dysgu syml sy'n cysylltu mewnbynnau â chanlyniadau, sy'n casglu gwybodaeth ymarferwyr ac yn cefnogi gwelliant parhaus i bob Partneriaeth.

**Atal ac ymarfer**

- Buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar a chefnogaeth wedi'i llywio gan drawma, yn enwedig o ran trais ymhlith pobl ifanc, camfanteisio ac iechyd meddwl / camddefnyddio sylweddau sy'n digwydd ochr yn ochr, gyda llwybrau'n gysylltiedig â'r ysgol a chefnogaeth teulu.
- Amddiffyn ac ehangu darpariaeth weledol yn y gymuned (e.e. gwasanaethau allgymorth i bobl ifanc, gweithgareddau dargyfeirio, rhwydweithiau gwylio busnesau/cymunedau) mewn canol trefi a dinasoedd ac ardaloedd gwledig.
- Sefydlogi rolau allweddol (e.e. ymarferwyr atal, swyddogion ymgysylltu â phobl ifanc, cydlynwyr diogelwch cymunedol) drwy gyllid dros sawl blwyddyn i gadw perthnasoedd a gwybodaeth leol.

**Llais ac atebolrwydd**

- Ymgorffori llais yr ymarferydd a'r gymuned yn gynnar wrth ddylunio polisïau a chyllid (cyfnodau ymgynghori, panelau cyd-ddylunio, mewnbwn profiad byw), â dolenni adborth sy'n dangos sut mae safbwyntiau wedi siapio penderfyniadau.
- Cyhoeddi datganiad blynyddol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol cywir yn lleol ac yn genedlaethol gan grynhoi blaenoriaethau, buddsoddiad, canlyniadau a dysg i gryfhau tryloywder ac ymddiriedaeth.

# Atodiad A – Methodoleg lawn

## Ffynhonnell y data

Mae’r dadansoddiad yn seiliedig ar “Leisiau o’r Rheng Flaen: Safbwyntiau Diogelwch Cymunedol”, a ddosbarthwyd gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ym mis Tachwedd 2025.

- Rhannwyd yr arolwg ag ymarferwyr diogelwch cymunedol ledled Cymru drwy rwydweithiau proffesiynol, e-bost a’r cyfryngau cymdeithasol.
- Derbyniwyd 27 o ymatebion wedi eu cwblhau.
- Yn eu plith, roedd amrywiaeth eang o rolau a sefydliadau, yn cynnwys awdurdodau lleol, yr Heddlu, darparwyr tai a sefydliadau trydydd sector.
- Roedd yr arolwg yn cyfuno cwestiynau aml-ddewis â chwestiynau testun rhydd, oedd yn caniatáu i ymarferwyr ddisgrifio’r heriau yn eu geiriau eu hunain.

## Sefydliadau a gynrychiolir yn yr arolwg

Cafwyd ymatebion i’r arolwg Lleisiau o’r Rheng Flaen: Safbwyntiau Diogelwch Cymunedol gan ymarferwyr yn gweithio mewn ystod o sefydliadau statudol ac anstatudol sy’n rhan o gyflawni gwasanaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru.

Ymhlith y sefydliadau a gynrychiolir mae:

- Awdurdodau Lleol
    - Timau Diogelwch Cymunedol
    - Gwasanaethau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
    - Gwasanaethau ieuenctid
    - Gwasanaethau Tai a Digartrefedd
    - Timau Partneriaethau Strategol a Pholisi
- Yr Heddlu a Phartneriaethau’r Heddlu
    - Heddluoedd tiriogaethol yng Nghymru
    - Arweinwyr Diogelwch Cymunedol ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yr Heddlu
    - Rolau partneriaeth rhanbarthol a lluoedd
- Gwasanaethau a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd
    - Mentrau diogelwch cymunedol
    - Rhaglenni atal trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Darparwyr Tai
    - Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

    - Timau diogelwch cymunedol tai cymdeithasol a chynnal tenantiaethau
- Y Trydydd Sector a Mudiadau Gwirfoddol
    - Gwaith ieuenctid a gwasanaethau allgymorth
    - Elusennau diogelwch cymunedol a diogelu
    - Gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a chamfanteisio
- Gwasanaethau ffydd a chymunedol
    - Gwasanaethau economi'r nos a chefnogaeth stryd
- Llywodraeth Cymru
    - Rolau polisi ac ymgynghorol yn gysylltiedig â diogelwch cymunedol ac atal

Roedd y rhai a ymatebodd yn gweithio mewn cyd-destunau trefol, canol tref a gwledig mewn amrywiaeth o swyddi gweithredol, strategol a rhai oedd yn canolbwyntio ar bolisi.

## Paratoi ac adolygu'r data

Cafodd pob ymateb ei adolygu'n llawn.

- Ni chafodd unrhyw ymateb ei eithrio o'r dadansoddiad.
- Cafodd ymatebion gwag neu "amherthnasol" eu nodi ond eu cadw.
- Ni chafodd ymatebion testun rhydd eu golygu, i sicrhau bod iaith ac ystyr yr ymarferwyr yn cael eu cadw.

Sicrhaodd y cam hwn bod y dadansoddiad yn seiliedig ar ystod lawn adborth yr ymarferwyr.

## Dadansoddi atebion caeedig

Ar gyfer y cwestiynau ag opsiynau ymateb penodol (er enghraifft, yr amgylchedd ariannu, effeithiolrwydd partneriaethau a llywodraethu):

- Cafodd yr ymatebion eu cyfri a'u crynhoi'n defnyddio cyfansymiau amlder syml.
- Pan oedd lle i fwy nag un ateb (megis rhwystrau i waith partneriaeth), cafodd pob opsiwn a ddewiswyd eu cyfrif unwaith fesul ymatebwr.
- Defnyddiwyd siartiau i dynnu sylw at batrymau a thueddiadau.

Ni ddefnyddiwyd unrhyw bwysoli na modelu ystadegol. Y pwrpas oedd disgrifio profiadau cyffredin, ac nid cynhyrchu ystadegau rhagfynegi neu gynrychioli.

## Dadansoddiad o'r ymatebion testun rhydd

Cafodd yr ymatebion testun rhydd eu dadansoddi'n defnyddio dull thematig ysgafn, yn canolbwyntio ar eglurder a thryloywder.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Darllen pob ymateb yn ofalus.
- Nodi materion a themâu sy'n ymddangos yn fynych mewn ymatebion.
- Grwpio sylwadau tebyg dan themâu clir (er enghraifft, trais difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc, ansicrwydd ariannol, rhwystrau i rannu data).

Pan oedd ymateb unigol yn codi sawl mater, roedd yn cael ei gynnwys mewn mwy nag un thema. Mae hyn yn adlewyrchu natur gysylltiedig yr heriau diogelwch cymunedol.

## Nodi materion pwysig a grwpiau sy'n cael eu heffeithio

Ar gyfer cwestiynau am y materion diogelwch cymunedol pwysicaf a'r cymunedau a effeithir fwyaf:

- Cafodd ymatebion eu hadolygu a'u grwpio yn defnyddio cod thematig syml â geiriau allweddol.
- Er enghraifft, cafodd cyfeiriadau at droseddau cyllell, gangiau neu gam-fanteisio eu grwpio dan 'drais difrifol' a chyfeiriadau am blant, ysgolion ac ymddygiad pobl ifanc eu grwpio dan 'faterion yn ymwneud â phobl ifanc'.
- Yn aml roedd ymatebion yn trafod mwy nag un mater neu grŵp a chawsant eu cyfrif yn briodol.

Roedd y dull hwn yn sicrhau bod heriau cymhleth, sy'n gorgyffwrdd yn cael eu hadlewyrchu'n gywir.

## Cyfyngiadau

Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau'r ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg ac ni fwriedir iddynt fod yn gynrychiolaeth ystadegol o'r holl weithlu diogelwch cymunedol yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae cysondeb y themâu ar draws gwahanol rolau, sectorau ac ardaloedd daearyddol yn darparu tystiolaeth ansoddol gref o'r heriau sy'n wynebu ymarferwyr diogelwch cymunedol.